# Capel y Beirdd yn dathlu'r 200

Braf iawn gallu adrodd i'r dathliad a gynhaliwyd yng Nghapel y Beirdd dros benwythnos 2–3 Gorffennaf fynd rhagddo'n llwyddiannus iawn. I ddechrau, roedd y tywydd o'n plaid – a diolch am hynny gan mai taith gerdded eitha heriol oedd o'n blaenau ar y bore Sadwrn.



Rhan o'r gynulleidfa yng Nghapel y Beirdd

Ond cyn cychwyn, a phawb wedi ymgynnull yn y capel, cafwyd cyfle i gamu'n ôl i'r gorffennol yng nghwmni criw bychan oedd wedi dod at ei gilydd i ail-greu rhyw funud mewn hanes ar aelwyd y Betws Fawr, cartref Robert ap Gwilym Ddu. Meinir Pierce Jones, Botacho Wyn, Nefyn, a luniodd y ddrama a Brian Ifans, Llanystumdwy, aeth ati i gyfarwyddo.



Cast y ddrama (o'r chwith): Meinir Pierce Jones, Carys ac Efan Tomos, Gwynne Wheldon Evans, John Dilwyn Williams a Miriam Williams

Cafwyd cyfle i gydganu dau o emynau Robert ap Gwilym Ddu, ac ar ddiwedd y ddrama cawsom ein hannog gan Cybi (John Dilwyn Williams) i droedio rhai o hen lwybrau Eifionydd. A dyna wnaethpwyd. Cerddodd tyrfa o tua phedwar ugain o bobol o bob oed ar hyd y ffordd tua'r Betws Fawr, lle cafwyd cyfle i weld y garreg goffa.

I lawr wedyn dan arweiniad Richard Parry, Gwindy, at y Lôn Goed, heibio Hidiart a hen gapel Engedi, ac i'r lôn bost yn Afon-wen. Roedd llwybr caletach dan draed wedyn wrth i ni wneud ein ffordd ar hyd y palmant i gyfeiriad Aber-erch. (Roedd y daith i gyd yn 7.3 milltir, yn ôl un teithiwr talog!)

Bu hen sgwrsio ar y daith, a braf ynghanol y pnawn oedd cyrraedd Eglwys Sant Cawrdaf yn Aber-erch a chael croeso cynnes yno. Roedd llawer ohonom yn camu i mewn i'r eglwys am y tro cyntaf erioed ac yn rhyfeddu at y ffenestri lliw hynod gain sydd yno. Cafwyd gair o ddiolch i bawb gan Meinir ac ategwyd hynny gan y Parchedig Aled Davies, a eglurodd fod syniad Meinir o drwsio ac ailosod rhywfaint ar fedd Bardd y Betws wedi ysgogi Cyngor Cymuned Llanystumdwy i fynd ati i wneud yr un peth i amryw o feddau rhai o'n llenorion ym mynwentydd y fro. Bydd y cyfan, gobeithio, wedi ei gwblhau cyn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.

Wedi i ni ganu'r emyn anfarwol 'Mae'r gwaed a redodd' unwaith yn rhagor yn Eglwys Aber-erch derbyniodd amryw o'r criw wahoddiad cynnes iawn Iwan a Bethan Edgar i'w cartref, Plas Hendref, oedd ryw led cae i ffwrdd. Yno cawsom luniaeth ysgafn a chyfle i ryfeddu at y tŷ hynafol a'r gerddi gwych y mae Iwan a Bethan yn eu gwarchod mor ofalus. Diolch yn fawr iddynt am eu haelioni.



Llun: Haf Meredydd

Y cerddwyr yn cael hanes Robert ap Gwilym Ddu gan John Dilwyn ar iard y Betws Fawr

Rhan o ddathliad daucanmlwyddiant Capel y Beirdd oedd y daith gerdded, wrth gwrs, ac i orffen y penwythnos, am 8 o'r gloch ar y nos Sul, daeth cynulleidfa deilwng o gantorion at ei gilydd i gynnal Cymanfa Ganu. Yr arweinydd eleni oedd Dafydd Roberts, Yr Hafod, Llithfaen, ac wrth yr organ fel arfer yr oedd Mrs Elizabeth Roberts, Penrhyndeudraeth. Cafwyd cyfle hefyd i ddiolch i Gwilym Plas am ei gyfraniad fel arweinydd dros y blynyddoedd, a llwyddodd yntau i'n harwain i ganu'r emyn enwog eto, ond y tro hwn ar dôn wahanol i'r diwrnod cynt. Recordiwyd y Gymanfa gan gwmni Parrog ar gyfer rhaglen *Caniadaeth y Cysegr*. Diolchwyd yn gynnes i bawb a fu ynglŷn â'r holl weithgareddau gan y Parch. Aled Davies.




Pleser gan y Parchg Beti-Wyn James oedd cyflwyno copi yr un o'r Beibl yn rhodd i blant Blwyddyn 6 yn Ysgol Bancyfelin a fydd yn symud i'r ysgol uwchradd ym mis Medi. Mae'r Beiblau yn rhoddion gan eglwys Annibynnol Cana ac Eglwys Bresbyteraidd Bancyfelin. Dymuniadau gorau i'r plant.